y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning

# Arbenigwyr Pwnc: Diwydiannau Creadigol

Mae IAITH yn dymuno cyflogi arbenigwr pwnc Addysg Bellach i gyfrannu tuag at greu testun a chynnwys  pecynnau e-ddysgu ym maes y Diwydiannau Creadigol ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Bwriad y prosiect yw datblygu cyfres o gyflwyniadau rhyngweithiol gan artistiaid blaenllaw a fydd wedi eu pecynnu ar ffurf pecynnau e-ddysgu ar gyfer meysydd o fewn y Diwydiannau Creadigol. Bydd y pecynnau yn cael eu hanelu at ddysgwyr sydd yn dilyn cyrsiau Lefelau 2 a 3. Mae angen i'r pecynnau e-ddysgu dargedu meysydd:

- **Celf a dylunio**
- **Cerddoriaeth**
- **Drama**
- **Y Cyfryngau Creadigol**
- **Busnes o fewn y Diwydiannau Creadigol**
- **Llwybrau dilyniant/llwybrau gyrfa o fewn y maes a chyfleoedd o fewn y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru**

## Rôl arbenigwyr pwnc

Ni fydd cynnwys y pecynnau e-ddysgu yn cael ei seilio yn gaeth ar fanyleb  corff dyfarnu penodol, ond fe ystyrir cynnwys  manylebau yn gyffredinol. Bydd disgwyl i'r arbenigwr pwnc gyflawni'r canlynol (gan gydweithio gyda staff IAITH):

Paratoi amlinelliad o gynnwys yr unedau e-ddysgu cyfrwng Cymraeg sydd yn addas ar gyfer hunan astudio gan ddysgwyr Lefelau 2 a 3. Bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cymeradwyo'r amlinelliadau.

Gwirio telerau hawlfraint/cyhoeddwr er mwyn cynnig cymaint â phosib o fideos a dolenni at wefannau Cymraeg sydd yn bodoli eisoes yn yr unedau

Creu cynnwys yr unedau e-ddysgu yn seiliedig ar yr amlinelliadau sydd wedi eu cytuno gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bydd angen i'r unedau gynnwys:

- elfennau damcaniaethol;
- gweithgareddau rhyngweithiol;
- syniadau am weithdai i'w cynnal sydd yn addas ar gyfer anghenion dysgwyr;
- cyfraniadau gan artistiaid blaenllaw;
- astudiaethau achos o artistiaid/busnesau/ llwybrau gyrfa;
- cynnwys cynhwysol sydd yn cynrychioli'r amrywiaeth ym mhoblogaeth Cymru gan gynnwys pobl o wahanol gefndiroedd ethnig, rhyw, hil, cred ac anabledd;
- gweithgareddau rhifedd perthnasol i'r meysydd ar lefelau 2 a 3;
- gweithgareddau llythrennedd perthnasol i'r maes ar lefelau 2 a 3;
- tasgau a gweithgareddau gwahaniaethol ar gyfer dysgwyr lefelau 2 a 3 gan gynnwys tasgau sydd yn cynnwys her ychwanegol ar gyfer dysgwyr disglair;
- cyfleoedd i asesu cynnydd dysgwyr;
- darparu cefnogaeth ar gyfer addysgwyr di-Gymraeg i ddefnyddio'r adnoddau, neu ran o'r adnoddau drwy gynnwys crynodebau o gynnwys yr unedau e-ddysgu yn Saesneg (ar ffurf nodiadau cryno i addysgwyr ar wahân);
- defnyddio technegau dysgu cyfredol;
- sicrhau cynnwys sy'n briodol ar gyfer hunan-ddysgu digidol;
- sicrhau bod unrhyw dermau a ddefnyddir yn cyfateb â thermau'r Termiadur Addysg;
- sicrhau bod modd trwyddedu cynnwys gwreiddiol dan drwydded.

Mae manyleb y prosiect yn awgrymu cynnwys 2-3 cyflwyniad neu astudiaeth achos yn rhan o bob pecyn.

## Proffil yr Arbenigwr

Bydd arbenigwr pwnc yn meddu ar y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth ganlynol:

- Profiad o addysgu, yn ddelfrydol ar Lefel 2 a/neu 3 ym maes Diwydiannau creadigol yn Gymraeg a/neu'n Saesneg;
- dealltwriaeth o sefyllfa addysgu cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn y maes;
- gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl.

# Amserlen

Rhagwelir y bydd y gwaith yn para am gyfnod o 5-7 diwrnod rhwng Mehefin 2023 a Medi 2023.

# Gwneud Cais

Anfonwch eich cais yn Gymraeg at post@iaith.cymru erbyn 2.00 ddydd Iau 15 Mehefin 2023.

Dylai'r cais gynnwys y canlynol:

- CV
- Cadarnhad o allu'r unigolyn i gynnig gwasanaeth ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cadarnhad o allu'r unigolyn i gyflawni'r gwaith o fewn yr amserlen a nodir uchod.

# Ffioedd

Byddwn yn talu ffi dyddiol yn ddibynnol ar brofiad gan ddilyn cyfraddau fesul awr addysg bellach.

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch gyda Buddug Hughes: buddug.hughes@iaith.cymru